Cerdyn Adnabod Slefrenni Môr

Hoffwn ddiolch i'r canlynol am eu caniatâd i ddefnyddio'u delweddau: 1 = Pete Hayward/Tony Nelson-Smith (ailargraffiad o Collins Guide to the Sea Shore), 2 = Peter Dyrynda (Dyrynda, P.E.J. 2003. Gower Peninsula, South Wales: landscapes, habitats and biodiversity), 3 = Pat O'Brien, 4 = Rowan Byrne, 5 = Amy Dale, 6 = Michelle Cronin, 7 = Patricia Byrne.

1



6

Rhywogaeth 1: **Slefren Fôr Gyffredin (*Aurelia aurita)***. Dyma'r math o slefren fôr mwyaf cyfarwydd. Fe'i hadnabyddir drwy ei phedair cylch gonad porffor/pinc. Mae gweddill y slefren fôr yn dryloyw a chanddi nifer o dentaclau byrion o amgylch ymyl y gloch (anodd eu gweld allan o'r dŵr). Gall fesur hyd at 400mm mewn diamedr, ond fel arfer bydd llawer yn llai. Fe'u ceir rhwng mis Ebrill a mis Medi. Pigiad gwan.


1

2

Rhywogaeth 2: Slefren Fôr Gwmpawd (*Chrysaora hysoscella*). Ei nodwedd amlycaf yw'r marciau brown/coch siâp 'V' ar y gloch. Mae ganddi 24 o dentaclau hir yn hongian o'r ymyl a phedair braich eneuol ffriliog yn llusgo o'r tu mewn. Maent yn wyn i felyn o ran eu lliw, â marciau brown siâp 'V'. Gallant fesur hyd at 500mm mewn diamedr. Mis Gorffennaf tan fis Medi. Yn gallu pigo.

1

Rhywogaeth 3: Slefren Fôr Gasgen (*Rhizostoma octopus*). Mae'r slefren fôr hon yn rhyfedd o solid i'w teimlo ac mae ganddi siâp cromen enfawr. Mae'n lliw gwyn fel ysbryd a chanddi labedau porffor o amgylch y ffin. Yn hongian o'r canol ceir wyth braich eneuol sy'n edrych fel blodfresych. Nid oes ganddynt dentaclau ond gall eu cyffwrdd am gyfnodau hir achosi adwaith alergaidd. Gallant fesur hyd at 1m mewn diamedr! Maent ar gael drwy'r flwyddyn i gyd ond maen nhw'n fwyaf niferus ym mis Gorffennaf hyd at fis Medi.

1

5

Rhywogaeth 4: Slefren Fôr Las (*Cyanea lamarckii*). Corff lled dryloyw â chylch glas-borffor y tu fewn. Llu o dentaclau ar y ffin. Hyd at 300mm mewn diamedr. Mae'n debyg i fersiwn llai o Slefren Fôr Mwng Llew. Fe'u ceir rhwng Ebrill a Gorffennaf, anghyffredin. Yn Pigo!

ERDF
Ewrop a Chymru: Buddsoddi yn eich Dyfodol
Europe & Wales: Investing in your Future
European Regional Development Fund
SOUTHERN & EASTERN Regional Assembly Promoting Our Region
IRELAND WALES 2007 – 2013
Ireland's EU Structural Funds Programmes 2007 - 2013
Co-funded by the Irish Government and the European Union
EUROPEAN REGIONAL DEVELOPMENT FUND

Rhywogaeth 5: Slefren Fôr Mwng Llew (*Cyanea capillata*): Gall diamedr y gloch gyrraedd 2 fetr, ond fel arfer maen nhw lawer yn llai. Mae ffin y gloch yn rhannu i wyth llabed ac 8 clwstwr o hyd at 150 tentacl yr un. Mae'r tentaclau'n hirach na'r breichiau geneuol. Mae'r lliw'n amrywio o unigolion coch dwfn i unigolion melyn. Rhybudd! Mae'r Slefrenni Môr hyn yn pigo'n ddifrifol.



Rhywogaeth 6: ***Slefren Fôr Pelagia* (*Pelagia noctiluca*):** Mae gan y gloch ddafadennau neu lympiau arni. Slefren fôr fach iawn, tua maint dwrn wedi'i gau, hyd at 10cm mewn diamedr. Dim ond wyth tentacl sydd ganddi. Fe'u ceir yn yr hydref/haf. Mae'n debyg i'r slefren fôr gyffredin, ond mae'r ddwy rywogaeth yn ymddangos ar adegau gwahanol o'r flwyddyn. Rhybudd: Yn gallu pigo



Rhywogaeth 7: Hwyliwr gyda'r gwynt (*Velella velella*). Nid slefren fôr go iawn, ond perthynas agos. Disgen las sy'n cyrraedd 8cm o hyd. Mae ganddo 'hwyl' sy'n estyn uwchben arwyneb y dŵr i ddal y gwynt a'i helpu i wasgaru. O amgylch ffin yr arnofyn ceir cylch o atodiadau pysgota yn debyg i dentaclau. Fe'i geir drwy'r flwyddyn i gyd. Pigiad gwan

Rhywogaeth 8: Chwysigen Fôr (*Physalia physalis*). Eto, nid yw'n slefren fôr go iawn ond perthynas. Arnofyn mawr ac amlwg hyd at 30cm o hyd a 10cm o led. Mae'r arnofyn yn arian-las gydag arlliw coch/pinc. Mae gweddill y corff yn las borffor. RHYBUDD! Mae'n achosi pigiadau difrifol.

Rhywogaeth 9: Eirinen Fôr (*Pleurobrachia pileus*). Nid slefren fôr o gwbl ond Ctenoffor. Mae ganddi siâp tebyg i wsberen ac mae'n dryloyw. Hyd at 20 mm o hyd. Os ydych yn edrych yn agos gallwch weld 8 plât ciliaraidd neu resi crib. Nid yw'n pigo.

Dr Tom Doyle
Canolfan Adnoddau Arfordirol a Morol (CMRC),
Coleg Prifysgol Corc,
Haulbowline, Naval Base,
Cobh, Corc, Iwerddon.
E-bost: t.doyle@ucc.ie

Swansea University
Prifysgol Abertawe

Dr Victoria Hobson
Yr Adran Ecoleg Bur a Chymhwysol
Ysgol yr Amgylchedd a Chymdeithas
Prifysgol Abertawe, Parc Singleton
Abertawe DU SA2 8PP
E-bostl: V.J.Hobson@abertawe.ac.uk

www.jellyfish.ie